ETS CymruWales
Safonau Addysg Hyfforddiant
Education Training Standards
Gwaith Ieuenctid • Gwaith Chwarae
Youth Work • Playwork

# Y RHAGLEN ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH AR GYFER GWAITH IEUENCTID




Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CLlLC WLGA

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

GPSI · PYOG
GRŴP PRIF SWYDDOGION IEUENCTID CYMRU
WALES PRINCIPAL YOUTH OFFICERS' GROUP

Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

CWVYS

## Beth yw'r rhaglen hon?

Rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth yw hon ar fodel a fu'n llwyddiannus yn flaenorol, sydd bellach wedi'i chyd-ddylunio gyda chynrychiolwyr o'r sector gwaith ieuenctid a'i chyd-destunoli i'w gwneud yn gyfredol ac i weddu i anghenion arweinwyr a rheolwyr gwaith ieuenctid cyfredol yng Nghymru.

Bydd yn mynd â chi ar daith ddysgu amdanoch chi eich hun fel arweinydd yn narpariaeth gwasanaethau i bobl ifanc. **Cydlynir y rhaglen gan ETS Cymru a gyda chefnogaeth CLILC, CWVYS, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru, TAG Cymru (darparwyr hyfforddiant gwaith ieuenctid ar lefel AU ac AB) ac fe'i hariennir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL) a Llywodraeth Cymru.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

ETS CymruWales — Safonau Addysg Hyfforddiant / Education Training Standards — Gwaith Ieuenctid • Gwaith Chwarae / Youth Work • Playwork

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru / National Academy for Educational Leadership Wales

CWVYS

GPSI · PYOG — Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru / Wales Principal Youth Officers' Group

CLILC / WLGA

University of South Wales / Prifysgol De Cymru

Cardiff Metropolitan University / Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## A yw'r rhaglen ar fy nghyfer i?

Bwriadwyd y rhaglen ar gyfer arweinwyr a rheolwyr presennol yn y sectorau a gynhelir a gwirfoddol sydd am wella eu sgiliau a'u hyder i arwain gwaith ieuenctid yn effeithiol ar adeg o gymhlethdod a newid sylweddol. Bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen:

- rannau sylweddol ohonynt.
- Ennill cymeradwyaeth eu rheolwyr llinell i gofrestru, ac
- Ymrwymo i fynychu'r tri modiwl yn eu cyfanrwydd.

## Beth fydd yn ei wneud?

The programme is a model of reflective learning, appropriate for youth work leaders as it applies the principles and practices of youth work. It has been designed to support the National Youth Work Strategy for Wales by ensuring that leaders of youth work have the opportunity to develop their strategic thinking skills and tools to be able to respond to challenges and change. If you are successful in joining the programme you will the opportunity to:

- Archwilio gwahanol fodelau arweinyddiaeth, a gallu cymhwyso'r modelau yn ymarferol i'ch arweinyddiaeth eich hun.
- Egluro sut mae arweinyddiaeth yn wahanol i reoli.
- Archwilio'r cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo: diwylliant eich sefydliad a'r amgylchedd polisi ehangach yng Nghymru.
- Datblygu eich sgiliau a'ch hyder wrth hyrwyddo a dadlau dros werth ac effaith gwaith ieuenctid.
- Gwella eich gallu i reoli'r broses o gyflenwi gwaith ieuenctid o safon uchel – defnydd o ddata a gwybodaeth a sicrhau ansawdd.
- Datblygu eich sgiliau i reoli cyllid: prisio gwasanaethau, gosod cyllideb, gwneud cynigion am arian.
- Datblygu eich gallu i arwain a rheoli staff - gosod nodau, ysgogi staff, a rheoli gwrthdaro.
- Deall pŵer a dylanwad - mapio a dadansoddi eich rhanddeiliaid ac archwilio sut i ddylanwadu a gweithio'n fwy strategol gyda nhw.
- Deall sut i leoli gwaith ieuenctid a'ch sefydliad gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dylanwadwyr allweddol.
- Datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o arweinyddiaeth systemau, arwain mewn partneriaethau a thimau amlddisgyblaethol.
- Ystyried y gwahaniaeth rhwng hyfforddi a mentora, a datblygu sgiliau hyfforddi eich hun.
- Archwilio'ch sgiliau a'ch galluoedd yn well fel arweinydd, a sut i'w gwella, gyda'ch cynllun gweithredu datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth eich hun.

## Cyflwyno'r rhaglen

Mae'r rhaglen yn cynnwys tri modiwl, lle byddwch chi'n chwilio, archwilio a datblygu'n feirniadol y galluoedd sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith ieuenctid mewn unrhyw leoliad sefydliadol.

**Mae'r modiwlau'n digwydd ar y dyddiadau canlynol:**

- **Modiwl 1 – Dydd Mercher a Dydd Iau 13 a 14 June 2023**
- **Modiwl 2 – Dydd Mawrth a Dydd Mercher 12 a 13 July 2023**
- **Modiwl 3 – Dydd Mercher a Dydd Iau 13 a 14 Medi 2023.**

Cynhelir yr holl fodiwlau yn Ramada Plaza Wrecsam, Ffordd Ellice, Wrecsam, LL13 7YH

Cyflwynir y rhaglen gan dîm o hyfforddwyr sydd â phrofiad o feddwl, ymchwil ac ymarfer arweinyddiaeth a rheolaeth, a phrofiad o arwain a rheoli gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth ar Lefel 7 (lefel Meistr), a gall cyfranogwyr gyflwyno aseiniad academaidd i ennill cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol ar gyfer modiwl ar y lefel hon. Cynigir Achrediad ILM ar Lefel 7 gan Gwasanaethau Masnachol PDC Cyf a bydd unigolion neu eu sefydliad yn talu amdano.

Rhaid i chi fynychu pob sesiwn isod.

**Sesiwn sefydlu (ar-lein)**

### Modiwl 1: Arwain gwaith ieuenctid modern

Erbyn diwedd y modiwl hwn byddwch wedi:

- Archwilio gwahanol fodelau arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth systemau, arweinyddiaeth ddosbarthedig ac arwain trwy ddylanwad a byddwch yn gallu cymhwyso'r modelau i'ch arweinyddiaeth eich hun yn ymarferol.
- Egluro sut mae arweinyddiaeth yn wahanol i reoli.
- Archwilio'r cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo sy'n newid yn gyflym.
- Datblygu'r meddwl strategol a'r offer sydd eu hangen arnoch er mwyn ymateb i'r heriau a'r newid sy'n eich wynebu wrth weithio mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

### Modiwl 2: Arwain a rheoli cyflwyno gwaith ieuenctid o ansawdd uchel

Erbyn diwedd y modiwl hwn byddwch wedi:

- Datblygu eich sgiliau wrth hyrwyddo a dadlau gwerth ac effaith gwaith ieuenctid.
- Nodi ffyrdd i wella'ch sgiliau rheoli ar gyfer gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, gan gynnwys defnyddio data a gwybodaeth reoli, sicrhau ansawdd, a rheoli arolygiadau.
- Gwella'ch sgiliau wrth reoli cyllid - costio a chomisiynu gwasanaethau, gosod cyllideb, cynnig am arian.
- Datblygu eich gallu i arwain a rheoli eich staff, gan gynnwys gosod nodau, ysgogi eich tîm, a rheoli risg.

### Modiwl 3: Arwain a rheoli gwaith ieuenctid ar draws y system gyfan

Erbyn diwedd y modiwl hwn byddwch wedi:

- Gwella'ch dealltwriaeth o bŵer a dylanwad - mapio a dadansoddi'ch rhanddeiliaid ac archwilio sut i ddylanwadu a gweithio'n fwy strategol gyda nhw (gan gynnwys gweithio gydag aelodau etholedig a phwyllgorau rheoli).
- Deall sut i leoli gwaith ieuenctid a'ch sefydliad gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol a dylanwadwyr.
- Datblygu eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o'r system arweinyddiaeth, gan arwain mewn partneriaethau a thimau aml-ddisgyblaeth.
- Archwilio'r gwahaniaeth rhwng hyfforddi a mentora a byddwch wedi gwella eich sgiliau hyfforddi eich hun.

Dros gyfnod y rhaglen byddwch hefyd wedi:

- Ystyried themâu trawsbynciol arwain ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a sicrhau bod pobl ifanc yn ymgysylltu ac yn cael eu grymuso.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o'ch sgiliau a'ch gallu fel arweinydd a sut i'w gwella trwy ddyddiadur dysgu personol.
- Cynhyrchu eich cynllun gweithredu datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth eich hun.

**Beth arall sydd angen i mi ei wybod?**
Dyma'r rhaglen arweinyddiaeth a rheolaeth bwrpasol gyntaf ar gyfer sector gwaith ieuenctid yng Nghymru mewn 15 mlynedd. Ariannwyd datblygiad y rhaglen gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru fel rhan o'i gylch gwaith i ddatblygu sgiliau a galluoedd arweinwyr gwasanaethau addysgol yng Nghymru. Telir costau rhedeg y rhaglen beilot gan Lywodraeth Cymru sy'n golygu ein bod yn gallu cynnig y rhaglen hon heb unrhyw gost i gyfranogwyr. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y rhaglen.

**Cyfleoedd pellach ar gyfer cyfranogwyr y rhaglen**
Bydd cyfranogwyr ar y rhaglen yn cael cyfle i gofrestru ar gyfer y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) Lefel 7, sy'n cael ei gynnig fel dewis ychwanegol.

**Strwythur y rhaglen**
Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o elfennau sy'n cyfuno fel y dangosir yn y diagram isod.

**Faint o amser sydd ei angen?**
Gall cyfranogwyr amrywio faint o amser maen nhw'n ei neilltuo i baratoi, darllen a rhwng tasgau modiwl felly mae'r ffigurau hyn yn arwydd yn unig o faint o amser y bydd angen i chi ei neilltuo.

**Paratoi a darllen cyn y cwrs: 10 awr**
**Presenoldeb: 2 ddiwrnod fesul modiwl - cyfanswm oddeutu: 40 awr**
**Gweithgareddau a darllen rhwng modiwlau: 5 awr**

**Yn ogystal â'r amser astudio, bydd angen i chi gymryd cyfrif o amser teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y rhaglen..**

**I wneud cais, cliciwch yma.**

